

# **Adolygiad â Phwyslais Penodol: Trefniadau Staffio, Llywodraethu a Rheoli Risg (Dirybudd)**

Ysbyty Annibynnol St David

Dyddiad arolygu: 15, 16 ac 17  
Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mawrth  
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

|    |                                 |    |
|----|---------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....         | 2  |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....   | 3  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....     | 5  |
| 4. | Beth nesaf? .....               | 12 |
|    | Atodiad A – Cynllun gwella..... | 13 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer



# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â phwyslais penodol, dirybudd o Ysbyty Annibynnol St David ar 15, 16 ac 17 Rhagfyr 2019. Hwn yw ein hail arolygiad o'r gwasanaeth eleni ac fe'i cynhaliwyd ar ôl i staff a oedd yn gweithio yn yr ysbyty fynegi pryderon sylweddol i AGIC.

## **Mental Health Care (St David's) UK – Ysbyty Annibynnol St David**

Mae Ysbyty St David yn Ysbyty Annibynnol sydd wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth adsefydlu i ddynion dros 18 (deunaw) oed sydd ag anabledd dysgu ysgafn i gymedrol, p'un a ydynt wedi'u cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) ai peidio.

Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu llety i 15 o gleifion dros nos ar unrhyw adeg.

## **Sut y gwnaethom hyn?**

Roedd y tîm yn cynnwys un aelod o staff AGIC ac un adolygwr cymheiriad.

Cafodd yr adolygiad ei gynnal dros gyfnod o noson/bore a dau ddiwrnod a chanolbwyntiodd yn benodol ar y canlynol:

- Cynlluniau gofal ac asesiadau risg
- Trefniadau staffio, gan gynnwys; y defnydd o staff asiantaeth
- Sefydlu a hyfforddiant
- Arsylwi ar gleifion
- Diogelu
- Llywodraethu ac archwilio
- Morâl ymhlith y staff
- Diwylliant

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, ni chawsom sicrwydd bod gan y darparwr cofrestredig systemau a phrosesau digonol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal effeithiol. Un pryder penodol oedd canfod nad oedd arsylwadau effeithiol yn cael eu cynnal mewn perthynas â chleifion yr oedd angen arsylwadau ychwanegol arnynt. Yn ogystal, gwelsom nad oedd gan un claf asesiadau risg na chynllun gofal, sy'n gwbl annerbyniol.

Gwelsom hefyd nad oedd cofnodion i ddangos bod nifer sylweddol o staff asiantaeth a ddefnyddir yn yr ysbyty wedi cael hyfforddiant sefydlu. Mae hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod ganddynt y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i weithio gyda'r grŵp cleifion.

Yn ogystal, nid oedd AGIC wedi cael gwybod am nifer o ddigwyddiadau y dylid bod wedi rhoi gwybod amdanynt o dan Reoliad 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac roedd rhai o'r rhain yn ddigwyddiadau arwyddocaol.

Mae llawer o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â methiannau llywodraethu. Pe bai broses lywodraethu effeithiol ar waith, dylai'r materion hyn fod wedi cael eu nodi a dylid bod wedi ymateb iddynt cyn i'r arolygiad gael ei gynnal.

Un o'r pryderon mwyaf a nodwyd yn ystod yr ymweliad oedd y diwylliant negyddol ac agwedd rhai o'r staff.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom rai meysydd o ymarfer nodedig, fel y nodir isod:

- Rhai enghreifftiau da o wybodaeth i gleifion ar fformat clir a phriodol
- Cofnodion cynhwysfawr mewn perthynas â gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Roedd rhai enghreifftiau o ymroddiad staff i'r cleifion

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio mewn nifer o feysydd fel y nodir isod;

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) o ran ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 20 (1) (a) a (b) o ran sicrhau bod personau â chymwysterau, sgiliau a phrofiad addas bob amser yn gweithio yn y sefydliad, gan gynnwys y rhai a gyflogir dros dro
- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 15 (1) (a) a (b) o ran sicrhau bod staff yn arsylwi ar y cleifion yn briodol a bod yr arsylwadau hyn yn cael eu cofnodi yn unol â'u hasesiadau risg a'u cynlluniau gofal.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth mewn perthynas â'r uchod.

Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn nodi achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio fel y nodir isod;

- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 31 o ran hysbysu am ddigwyddiadau
- Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 19 (1) (b) o ran sicrhau bod prosesau llywodraethu effeithiol ar waith i reoli risgiau mewn cysylltiad ag iechyd, lles a diogelwch cleifion.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol bod camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen, neu y caiff camau o'r fath eu cymryd.

Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn yn peri pryder mawr ac o ganlyniad, dynodwyd bod y gwasanaeth yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder fel y disgrifir yn ein gweithdrefn orfodi. Mae hyn yn golygu bod yr ysbyty yn destun gwaith craffu ar y lefel uchaf bosibl a bydd AGIC yn monitro'r gwasanaeth yn agos iawn i sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu gwneud. Rydym hefyd mewn cysylltiad rheolaidd â chomisiynwyr y cleifion sydd yn yr ysbyty.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio amrywiol iawn, ac nid oedd pob un ohonynt yn briodol.

Roedd gan y cleifion gynlluniau gweithgareddau ac roeddent yn mynychu Coed Bach ar dir yr ysbyty, a oedd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a therapïau

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion, ar fformat clir a phriodol.

Cawsom sgwrs â nifer o'r cleifion er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu. Yn ogystal, cawsom sgwrs ag amryw o staff o ddisgyblaethau gwahanol, gan gynnwys uwch-aelodau o'r sefydliad.

#### Urddas a pharch

Yn ystod yr arolygiad, roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn amrywiol iawn o ran ei briodoldeb. Er na chlywodd yr Arolygwyr unrhyw ryngweithio dirmygus na sarhaus, gellid bod wedi canolbwyntio'n fwy ar y cleifion mewn rhai enghreifftiau, er enghraifft, staff yn dweud "*Fi sydd ar ddyletswydd*" ("*I am on*") mewn perthynas ag arsylwadau cleifion. Yn ogystal, pan roedd aelod o'r staff yn hyfforddi aelod newydd o'r staff, dywedodd y byddai'r dynion yn yr ysbyty yn y carchar "*oni bai am y Ddeddf Iechyd Meddwl*". Yn amlwg, nid yw hyn yn briodol.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun ac roedd yr ystafell wedi'i phersonoli i'r graddau a oedd yn briodol yn dibynnu ar ymddygiad ac asesiad risg y claf dan sylw.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cyfathrebu â'r cleifion ac â'i gilydd mewn ffordd broffesiynol a gofalgar.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Roedd rhai systemau ar waith ac roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau i'w hategu. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod y systemau hyn wedi methu â sicrhau bod nifer sylweddol o gleifion yn cael arsylwadau effeithiol a chyson. Yn ogystal, nid oedd unrhyw asesiadau risg na chynlluniau gofal ar gael ar gyfer claf a dderbyniwyd i'r ysbyty yn ddiweddar, ac nid oedd y gwasanaeth wedi nodi hyn.

Am nad oedd unrhyw ddogfennau ar gael mewn perthynas â'r staff asiantaeth a ddefnyddir yn yr ysbyty, ni allem fod yn sicr bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad addas i ofalu am y grŵp cleifion.

Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y darparwr cofrestredig yn gallu darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

### Rheoli risgiau a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y drws i'r ysbyty wedi'i gloi ac roedd yn rhaid canu cloch er mwyn mynd i mewn i'r safle.

Hapddewisodd yr Arolygydd enw pum aelod o staff asiantaeth a oedd wedi gweithio yn yr ysbyty yn ddiweddar, a gofynnodd i'r rheolwr dros dro ddarparu copïau o'r dogfennau sefydlu a gwblhawyd er mwyn cadarnhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol. Cyflwynwyd gwybodaeth gyfyngedig iawn am sgiliau a chymhwysedd tri aelod o'r staff asiantaeth, ond gwybodaeth sylfaenol iawn oedd hon ac nid oedd yn foddhaol. Nid oedd unrhyw wybodaeth o gwbl ar gael am y ddau aelod arall o'r staff asiantaeth. Yn ogystal, o ran dogfennau sefydlu, cafodd yr Arolygydd wybod na allai'r rheolwr dros dro ddod o hyd i'r ffeil asiantaeth ac felly nid oedd gwybodaeth ar gael am hyfforddiant sefydlu'r staff asiantaeth. O gofio bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n helaeth bob wythnos, rhwng 269 a 710 o oriau'r wythnos, roedd hyn yn peri pryder mawr.

Gan nad oedd unrhyw ddogfennau sefydlu wedi'u cwblhau, ni allwn fod yn sicr bod agweddau allweddol ar weithrediad yr ysbyty wedi cael eu cyfleu i'r staff asiantaeth; gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i ddiogelwch y cleifion a'r staff.

Yn ogystal, gan nad oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol, ni allai'r darparwr cofrestredig roi unrhyw sicrwydd bod yr aelodau hyn o staff asiantaeth yn addas i ofalu am y cleifion mewn modd diogel ac effeithiol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn yr ysbyty yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ofalu am y cleifion yn ddiogel.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob gwiriad a gynhelir mewn perthynas â'r staff yn cael ei gofnodi a bod y cofnodion hyn ar gael i'w gweld.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod proses sefydlu pob aelod o'r staff yn cael ei chofnodi a bod y cofnodion hyn ar gael i'w gweld.

### Gofal effeithiol

Roedd gan yr ysbyty gymysgedd o gofnodion papur ac electronig. Gwnaethom edrych ar ddwy set o gofnodion cleifion.

Cafodd Claf A ei dderbyn i'r ysbyty ar 9 Rhagfyr 2019. Edrychodd Arolygydd AGIC ar y ffeil ofal ar 16 Rhagfyr 2019 a gwelodd nad oedd yn cynnwys unrhyw asesiadau risg na chynlluniau gofal. Roedd y ffeil yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth hanesyddol, rhai nodiadau clinigol, asesiad cyn derbyn a gynhaliwyd ym mis Mai 2019 a rhai templedi risg heb eu cwblhau ar gyfer y claf dan sylw. Yn ogystal, gofynnodd yr Arolygydd i'r rheolwr dros dro edrych ar y nodiadau electronig i weld a oeddent yn cynnwys mwy o wybodaeth. Yr unig wybodaeth electronig a oedd ar gael am y claf oedd rhai cynlluniau rheoli risg a gwblhawyd mewn perthynas â lleoliad mewn cartref gofal tua 11 mis yn gynharach.

Roedd y claf yn unigolyn cymhleth a oedd wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd yn destun arsylwadau ychwanegol 1:1 ac roedd yn ymddwyn mewn nifer o ffyrdd heriol.

Am nad oedd cynlluniau gofal ar gael, nid oedd fframwaith i'w ddilyn i ddarparu gofal effeithiol. Er enghraifft, pan roedd y claf yn cael arsylwadau 1:1, nid oedd canllawiau ar gael i'r aelod o staff a oedd yn gyfrifol am gynnal yr arsylwadau hyn. Yn ogystal, roedd risgiau wedi'u nodi yn y cofnodion clinigol ond ni luniwyd cynllun rheoli risg i fynd i'r afael â nhw. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys: ymddygiad rhywiol amhriodol ac yfed gormod o hylifau.

Heb unrhyw gynlluniau gofal nac asesiadau risg, nid oedd gan y staff fframwaith i'w harwain a'u galluogi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom hefyd fod ffeiliau gofal y claf arall yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth a oedd wedi'i gwneud hi'n anodd i'r arolygwyr ddod o hyd i ddyddiadau adolygu a chynlluniau cyfredol. Felly, pan roedd staff asiantaeth a/neu staff banc yn gweithio yn

yr ysbyty a oedd yn anghyfarwydd â'r dogfennau, byddent hwy hefyd yn wynebu problemau tebyg ac yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y wybodaeth roedd ei hangen arnynt i ofalu am y claf yn effeithiol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu priodoldeb cynnwys cymaint o wybodaeth a sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i'r dogfennau allweddol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg cynhwysfawr ar gael ar gyfer pob claf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod unrhyw gleifion heb asesiadau risg na chynlluniau gofal priodol yn cael eu nodi ar unwaith.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu priodoldeb cynnwys cymaint o wybodaeth yn ffeiliau gofal y cleifion a sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i'r dogfennau allweddol.

Mewn nifer mawr o achosion, nid oedd unrhyw ddogfennau ar gael i gadarnhau bod y cleifion wedi cael yr arsylwadau 1:1 gofynnol.

Am tua 23:30 ar 15 Rhagfyr 2019, gofynnodd yr Arolygwyr am gopïau o gofnodion arsylwi'r cleifion a oedd yn cael arsylwadau 1:1. Edrychwyd ar y cofnodion hyn a nodwyd y bylchau canlynol mewn perthynas ag arsylwadau a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y dydd:

- Claf A - Nid oedd unrhyw arsylwadau wedi'u cofnodi ers 21:00
- Claf B - bylchau rhwng 20:00 a 23:00
- Claf C - Dim arsylwadau ers 21:00
- Claf D - Dim arsylwadau ers 20:00
- Claf E - Dim arsylwadau ers 20:00
- Claf F - Dim arsylwadau ers 20:00

Cynhaliwyd adolygiad tebyg ar 17 Rhagfyr 2019 am 11:09 a nodwyd y bylchau canlynol:

- Cleifion A, B a G - ffurflenni arsylwi gwag
- Claf C - un cofnod yn unig am 10:55

- Claf F - un cofnod yn unig am 08:45

Yn ogystal, yn ystod cyfweiliadau â'r staff, dywedodd aelodau o'r staff wrth adolygwr cymheiriaid AGIC y byddent yn gadael eu harsylwadau 1:1 ar sawl achlysur i gynorthwyo cleifion eraill. Mae'r arfer hwn yn peri risg sylweddol i les a diogelwch cleifion yr aseswyd bod angen arsylwadau ychwanegol arnynt a chleifion eraill sy'n cael gofal yn yr ysbyty. Roedd hi'n amlwg hefyd fod y staff yn mynd o arsylwi'n uniongyrchol ar un claf i glaf arall drwy gydol eu sifft.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion arsylwi yn cael eu cadw ar gyfer pob claf a'u bod yn gyflawn bob amser.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Drwy drafod â staff o ddisgyblaethau amrywiol ac arsylwi arnynt, roedd hi'n amlwg bod morâl ymhlith y staff gofal yn isel ac roedd llawer ohonynt wedi llwyr ymlâdd. Roedd y diwylliant negyddol yn yr ysbyty yn peri pryder hefyd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gopïau o amrywiaeth o adroddiadau llywodraethu ac ansawdd ond roedd hi'n anodd gweld sut roedd y prosesau hyn yn cael effaith gadarnhaol ac yn arwain at newidiadau i'r gwasanaeth.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd amrywiaeth o systemau a phrosesau ar waith mewn perthynas â llywodraethu ac archwilio. Fodd bynnag, nid oedd y systemau yn gwella pob agwedd ar y gwasanaeth nac yn mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Un enghraifft benodol o hyn yw y nodwyd nad oedd dogfennau sefydlu ar gael ar gyfer staff asiantaeth ar 30 Awst 2019 ac, unwaith eto, ar 1 Tachwedd 2019. Nodwyd y broblem eto yn ystod yr arolygiad hwn ac ni welsom unrhyw dystiolaeth bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hi.

Roedd hi hefyd yn syndod gweld nad oedd yr adroddiad "Llywodraethu Ansawdd Clinigol Lleol", dyddiedig 22 Tachwedd 2019, ar gyfer cyfnod adolygu mis Hydref 2019, yn cyfeirio at hyfforddiant sefydlu staff asiantaeth er bod yr archwiliad a nodir uchod wedi tynnu sylw at y broblem.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu trefniadau llywodraethu'r ysbyty er mwyn sicrhau bod materion sy'n peri pryder yn cael eu nodi'n effeithiol a bod camau unioni yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd hi'n amlwg iawn nad oedd AGIC wedi cael gwybod am nifer sylweddol o ddigwyddiadau a arweiniodd at anaf i gleifion, yn unol â rheoliad 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011; roedd rhai o'r rhain yn ddigwyddiadau difrifol. Ar yr "Adnodd Hysbysu am Ddigwyddiadau Diogelu" roedd colofn i ddangos p'un a oedd angen atgyfeirio'r digwyddiad at AGIC. Rhwng mis Hydref 2018 a mis Rhagfyr 2019, dim ond ar chwe achlysur y rhoddwyd gwybod i AGIC am ddigwyddiad yn ôl yr adnodd hysbysu. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y digwyddiadau'n fanylach, roedd hi'n amlwg y dylai AGIC fod wedi cael gwybod am lawer mwy o'r digwyddiadau hyn o dan y categori anaf difrifol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu pob digwyddiad a sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu'n briodol am ddigwyddiadau a wnaeth beri anaf difrifol i gleifion.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod bod gan y gwasanaeth wyth swydd wag a bod angen arsylwadau ychwanegol ar nifer mwy o gleifion na'r arfer ar hyn o bryd; roedd saith o gleifion yn cael arsylwadau 1:1 ar adeg yr arolygiad. Mae'n hanfodol bod gan y darparwr cofrestredig gynllun gweithredu cadarn i fynd i'r afael â'r diffygion hyn fel blaenoriaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r prinder staff.

### Materion sefydliadol ehangach

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â staff amrywiol. Daeth nifer o themâu i'r amlwg yn ystod y broses gyfweld. Dywedodd llawer o'r staff gofal eu bod wedi llwyr ymlâdd a nodwyd bod morâl yn isel. Elfen arall a oedd yn peri pryder i'r arolygwyr oedd y diwylliant negyddol a nodwyd yn ystod yr ymweliad ac agweddd rhai aelodau o'r staff tuag at y cleifion. Gwnaed argymhelliad yn hyn o beth yn gynharach yn yr adroddiad.

## 4. Beth nesaf?

Yn dilyn yr ymweliad, cynhaliodd AGIC gyfarfod adolygu ynghylch gwasanaeth sy'n peri pryder gan benderfynu, oherwydd canfyddiadau'r ymweliad, y dylid cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio ac y byddai Ysbyty St David yn cael ei ddynodi yn Wasanaeth sy'n Peri Pryder. Hefyd, oherwydd y pryderon difrifol a nodir yn yr adroddiad hwn, penderfynwyd cyflwyno "Penderfyniad Brys i Osod Amod Ychwanegol"; effaith hyn oedd atal y darparwr rhag derbyn unrhyw gleifion newydd i'r ysbyty nes bod AGIC yn sicr na fyddai unrhyw gleifion newydd yn agored i'r risg o gael niwed.

Mae'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn a'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'w gweld yn y cynllun gwella yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys manylion am y camau gweithredu a gymerir gan y darparwr i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Ar adeg cyhoeddi'r adolygiad hwn mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

## Atodiad A – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol St David

### Dyddiad arolygu: 15, 16 ac 17 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                         | Rheoliad/<br>Safon                               | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|------------|
| <b>Profiad y Claf</b>                                                                                                              |                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                     |            |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cyfathrebu â'r cleifion ac â'i gilydd mewn ffordd broffesiynol a gofalgarg. | Rheoliad 16<br>(1)<br>Rheoliad (18)<br>(1) a (2) | O hyn ymlaen, bydd pob uwch-aelod o'r staff, wrth fynd o gwmpas yr ardaloedd cymunedol, yn edrych ar y gofal a ddarperir ac yn chwilio am gyfleoedd i rannu arfer gorau. Byddant yn nodi ac yn herio safonau gofal gwael ac unrhyw ymddygiad amhroffesiynol gan y staff, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cyfathrebu/rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Mae staff nyrsio profiadol wedi cael eu hanfon i'r lleoliad o leoliadau eraill MHC er mwyn helpu i rannu arfer gorau ac arddangos safonau uchel o | Pawb                | Ar unwaith |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Swyddog<br>cyfrifol                               | Amserlen                |
|----------------------------|--------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|-------------------------|
|                            |                    | <p>ofal.</p> <p>Mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu wedi ailwampio rhaglen hyfforddi'r Ysbyty er mwyn canolbwyntio'n fwy penodol ar agweddau allweddol ar ofal sy'n atgyfnerthu'r diwylliant, yr ymddygiadau a'r safonau sydd eu hangen i ddarparu gofal o ansawdd. Mae'r rhaglen bellach yn canolbwyntio ar yr hyfforddiant canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</li> <li>• Cymorth ymddygiad cadarnhaol</li> <li>• Cymorth gweithredol</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu</li> <li>• Urddas mewn gofal</li> <li>• Awtistiaeth</li> </ul> <p>Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar yr angen i gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Bydd dyddiadau ar gyfer yr uchod ar gael rhwng 19 Chwefror 2020 a</p> | <p>Margaret Shannon, Rheolwr Dysgu a Datblygu</p> | <p>Chwe – Tach 2020</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Swyddog<br>cyfrifol                                                                  | Amserlen         |
|----------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|------------------|
|                            |                    | 10 Tachwedd 2020.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                      |                  |
|                            |                    | Cafodd Hyrwyddwr Urddas ei hyfforddi ddiwedd yr haf 2019, ond ni chafodd y rôl ei hatgyfnerthu o fewn y gwasanaeth erioed. Caiff hysbysebion mewnol eu cyhoeddi ym mis Chwefror am ddau Hyrwyddwr Urddas arall. Bydd y rolau hyn yn helpu i addysgu staff a hyrwyddo urddas mewn gofal bob dydd.                                                                                                                                                                       | Christine Ashton Hofer, Hyrwyddwr Urddas presennol. (Unigolion eraill i'w cadarnhau) | 20 Chwefror 2020 |
|                            |                    | Mae prosesau goruchwyllo staff yn cael eu hadolygu er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu gofal / darpariaeth glinigol. Mae'r gwasanaeth wedi llunio templed goruchwyllo drafft a gaiff ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Llywodraethu Clinigol (18 Chwefror 2020), sy'n cynnwys chwech agwedd ar ofal (neu'r '6 c's of care' yn Saesneg); gofal, trugaredd, dewrder, cyfathrebu, ymrwymiad a chymhwysedd. Os caiff y templed ei gymeradwyo, caiff ei gyflwyno | Christian Bradford, Rheolwr Cofrestredig Dros Dro.                                   | 28 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                           | Amserlen                                  |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|
|                            |                    | <p>yn y gwasanaeth ar unwaith. Bydd y broses hon yn helpu i addysgu a chefnogi staff unigol, yn eu helpu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac yn helpu i reoli perfformiad.</p> <p>Mae'r cyfathrebu a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion wedi cael ei ychwanegu at agenda'r Cyfarfod Cleifion a gynhelir ym mis Chwefror 2020. Caiff ein rhyngweithio ei drafod yn agored a chaiff unrhyw wersi i'w dysgu eu rhannu mewn cyfarfodydd staff a thrwy drefniadau Llywodraethu Clinigol lleol. Caiff eiriolwyr eu gwahodd i'r cyfarfod er mwyn cefnogi unrhyw gleifion fel y bo angen.</p> <p>Nes clywir yn wahanol, caiff Urddas mewn Gofal ei ychwanegu fel eitem sefydlog at agenda'r Cyfarfodydd Staff. Bydd yr eitem hon ar yr agenda yn canolbwyntio ar annog y staff i drafod unrhyw welliannau y gellir eu gwneud i'r</p> | <p>Wendy Goulbourn, Uwch-Weithiwr Cymdeithasol.</p> <p>Christian Bradford, Rheolwr Cofrestredig Dros Dro.</p> | <p>28 Chwefror 2020</p> <p>Ar unwaith</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                          | Amserlen                                    |
|----------------------------|--------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
|                            |                    | <p>gofal a ddarperir a phrofiad y cleifion. Caiff unrhyw gamau gweithredu neu wersi i'w dysgu eu hadolygu yn y Fforwm Llywodraethu Clinigol Lleol a'u rhannu â Phwyllgor Lles Pobl MHC.</p> <p>Bydd ymweliadau dirybudd â'r gwasanaeth yn parhau yn ystod y dydd a'r nos a chânt eu cynnal gan y Tîm Ansawdd, y Swyddog Rheoleiddio a Chydymffurfiaeth a'r Cynllun Ymwelwyr Lleyg. Mae pawb wedi cael gwybod am adborth AGIC a meysydd o bryder/ffocws ar gyfer y dyfodol. Bydd yr ymweliadau hyn yn parhau i ganolbwyntio ar safonau gofal, cyfathrebu a phroffesiynoldeb.</p> <p>Cynhelir cyfres o weithdai â'r tîm staff er mwyn diffinio'r gwerthoedd a'r diwylliant a ddisgwylir yn y gwasanaeth. Caiff y gwerthoedd a'r ymddygiadau hyn eu hymgorffori yn y gwasanaeth wedyn drwy'r arweinwyr, drwy fodelu ymddygiad a thrwy gysoni systemau a phrosesau,</p> | <p>Gemma O'Malley, Arweinydd Ansawdd.</p> <p>Andrew MacGlashan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol /</p> | <p>Ar unwaith</p> <p>30 Ebrill<br/>2020</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                 | Rheoliad/<br>Safon      | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                     | Amserlen         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|
|                                                                                                                                                                            |                         | <p>fel arsylwi ar gleifion ac ymgysylltu â chleifion, cyfarfodydd tîm, goruchwyllo ac arfarnu staff ac ati, er mwyn helpu i newid y diwylliant mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.</p> <p>Caiff holl staff Ysbyty St David gopi arall o lawlyfr y cwmni.</p> | <p>Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty.</p> <p>Molly Davies, Swyddog Gweinyddu Recriwtio</p> | 14 Chwefror 2020 |
| <b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>                                                                                                                                  |                         |                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                         |                  |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn yr ysbyty yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i ofalu am y cleifion yn ddiogel. | Rheoliad (20) (1) a (2) | <p>Ar 04 Chwefror 2020, mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn yr Ysbyty fel a ganlyn; Hyfforddiant gorfodol – 88% Hyfforddiant arbenigol – 66%.</p> <p>Mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu wedi llunio rhaglen hyfforddi i gefnogi'r</p>                           | Margaret Shannon, Rheolwr Dysgu a Datblygu.                                                             | Chwe – Tach 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Swyddog<br>cyfrifol                                         | Amserlen   |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|------------|
|                            |                    | <p>gwasanaeth ymhellach, a fydd ar waith rhwng 19 Chwefror a 10 Tachwedd 2020.</p> <p>Hyd at 24/01/20 – mae 95% o staff Asiantaeth wedi cael hyfforddiant MAPA neu MVA. Mae 41% wedi cael hyfforddiant MAPA uwch. Caiff hyfforddiant MAPA pellach ei gynnal ar 26 Mawrth 2020.</p> <p>Cafodd 12 aelod o staff asiantaeth hyfforddiant MAPA uwch ar 27 Rhagfyr 2019. Darparwyd yr hyfforddiant hwn gan MHC er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff sydd ar ddyletswydd wedi cael hyfforddiant addas. Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, cynhaliwyd cyfarfod ar 24 Rhagfyr 2019 i drafod yr hyn a ddisgwylir o ran ansawdd staff. Mae mwy o hyfforddiant MAPA i staff asiantaeth wedi cael ei drefnu ar gyfer 05 Chwefror 2020.</p> <p>Edrychir ar y rota staff bob dydd er mwyn sicrhau bod digon o staff ar</p> | Christian<br>Bradford, Rheolwr<br>Cofrestredig Dros<br>Dro. | Ar unwaith |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>ddyletswydd, yn ogystal â staff profiadol sydd wedi cael hyfforddiant addas. Y Rheolwr Cofrestredig Dros Dro sy'n arwain y gwaith hwn o ddydd i ddydd. Caiff unrhyw brinder staff a nodir ei lenwi gan ddefnyddio Staff Banc neu staff Asiantaeth.</p> <p>Mae'r ysbyty yn parhau i recriwtio ac mae 9.5 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael gwiriadau cyn cyflogi / dilyn prosesau sefydlu. Mae cyfnod sefydlu nesaf y cwmni, sy'n para pythefnos, yn dechrau ar 10 Chwefror 2020 a disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r staff sy'n ymuno â'r gwasanaeth yn mynychu.</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiad recriwtio ar 31/01/20 er mwyn helpu i recriwtio staff newydd i Ysbyty St David. Fel rhan o'r digwyddiad hwn, cynhaliwyd gweithdy cyfweld a digwyddiadau ymgysylltu â Therapyddion Galwedigaethol / Therapyddion Lleferydd ac Iaith /</p> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                              | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Swyddog<br>cyfrifol                    | Amserlen         |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|------------------|
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob gwiriad a gynhelir mewn perthynas â'r staff yn cael ei gofnodi a bod y cofnodion hyn ar gael i'w gweld. |                    | <p>Cleifion.</p> <p>Mae hysbysebion wedi'u cyhoeddi ar gyfer swydd y Rheolwr Cofrestredig a'r Dirprwy Reolwr Dros Dro yn fewnol ac yn allanol.</p> <p>Mae penodi Rheolwr Cofrestredig newydd i'r Ysbyty yn hollbwysig er mwyn datblygu'r gwasanaeth a sicrhau newid cynaliadwy. Y dyddiad cau yw 21 Chwefror 2020. Dilynir proses ddethol gadarn er mwyn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau.</p> | Tîm Gweithredol                        | 28 Chwefror 2020 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod                                                                                                             |                    | Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi mewn perthynas â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn ddiogel ac yn gadarn. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau mewn perthynas â geirdaon. Caiff yr holl wybodaeth am wiriadau cyn cyflogi ei storio yn ffeil bersonél yr aelod o staff dan sylw yn                  | Denise Jones, Gweinyddwr y Gwasanaeth. | 28 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                      | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Swyddog<br>cyfrifol                             | Amserlen         |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------------------|
| proses sefydlu pob aelod o'r staff yn cael ei chofnodi a bod y cofnodion hyn ar gael i'w gweld. |                    | <p>ogystal â'r rhaglen Adnoddau Dynol electronig 'Snowdrop'.</p> <p>Archwiliwyd sampl o ffeiliau personél ar 07 Ionawr 2020. Trefnwyd bod archwiliad dilynol llawn yn cael ei gynnal drwy gydol mis Chwefror 2020 gan Weinyddwr y gwasanaeth. Bydd y tîm rheoli yn mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu.</p> <p>Mae goruchwyllo staff asiantaeth yn agos a'u rheoli wedi bod yn broblem barhaus i'r gwasanaeth, fel y nodwyd gan AGIC yn ystod yr arolygiad. Ers yr arolygiad, mae nifer o welliannau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr holl staff asiantaeth a ddefnyddir wedi cael hyfforddiant addas a'u bod yn brofiadol i weithio yn Ysbyty St David. Mae 94% o Broffiliau Staff Asiantaeth ar gael yn y 'Ffeil Asiantaeth' yn y Swyddfa Nyrsio. O'r staff hyn, mae tystiolaeth bellach ar gael i ddangos bod 60% ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant</p> | Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty. | 14 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Swyddog<br>cyfrifol  | Amserlen   |
|----------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------|
|                            |                    | sefydlu mewnlol sy'n benodol i Ysbyty St David. Y targed yw bod pob aelod o staff asiantaeth wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu a bod tystiolaeth wedi'i chynnwys yn y ffeil erbyn dydd Gwener 14 Chwefror 2020.                                                                                                                                                                                           | Nyrs<br>Chyfrifoldeb | Ar unwaith |
|                            |                    | Mae'r system newydd yn sicrhau bod proffil unrhyw staff asiantaeth newydd yn dod i law cyn iddynt ddechrau gweithio a bod hyfforddiant sefydlu lleol yn cael ei gwblhau ar y diwrnod cyntaf a bod y wybodaeth yn cael ei storio gyda'r proffil yn y 'Ffeil Asiantaeth' yn y Swyddfa Nyrsio. Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn arwain y tîm staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant sefydlu priodol. | Nyrs<br>Chyfrifoldeb | Ar unwaith |
|                            |                    | Bob dydd, mae'r Nyrs â Chyfrifoldeb yn gwirio ac yn llofnodi'r cynllunydd dyletswyddau er mwyn cadarnhau bod gan bob aelod o staff asiantaeth ar y sifft broffil a'i fod yn cael / wedi cwblhau                                                                                                                                                                                                           |                      |            |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                            | Rheoliad/<br>Safon                                                         | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Swyddog<br>cyfrifol                             | Amserlen         |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|------------------|
|                                                                                                                       |                                                                            | <p>hyfforddiant sefydlu.</p> <p>Yna, caiff y cofnod o broffiliau staff asiantaeth a'r cynllunwyr dyletswyddau eu harchwilio bob wythnos gan Reolwr Dros Dro yr Ysbyty er mwyn sicrhau bod y prosesau'n cael eu dilyn. Mae'r Tîm Ansawdd a'r Unigolyn Cyfrifol yn craffu ar hyn o bryd i'w gilydd hefyd. Caiff unrhyw adborth ei rannu â Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r broses hon.</p> | Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty. | 28 Chwefror 2020 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ac asesiadau risg cynhwysfawr ar gael ar gyfer pob claf. | <p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 19 (1)</p> <p>Rheoliad 23</p> | <p>Rydym hanner ffordd drwy'r broses o archwilio ffeiliau pob claf, ac rydym wedi nodi tua 188 o gamau unioni hyd yma, mewn perthynas â chynnwys ac ansawdd. Caiff yr archwiliad llawn ei gwblhau erbyn 14 Chwefror 2020.</p> <p>Mae Ffeiliau Cleifion hefyd wedi cael eu harchwilio/adolygu yn ddirybudd, ac ar</p>                                                                                                                             | Tîm MHC Ansawdd                                 | 14 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>ôl rhoi rhybudd, gan nifer o randdeiliaid allanol, yn ystod sawl ymweliad, gan gynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• GIG Cymru</li> <li>• NHS England</li> <li>• Cydlynwyr Gofal o Fyrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol</li> <li>• Grwpiau Comisiynu Clinigol</li> </ul> <p>Mae staff mewnol a rhanddeiliaid allanol wedi rhannu arweiniad a chymorth proffesiynol amrywiol er mwyn gwella prosesau cynllunio risg a gofal yn y gwasanaeth. Mae'r tîm wedi croesawu'r cymorth a'r cyngor hwn. Trafodwyd yr holl adborth o'r ymweliadau hyn yn lleol drwy'r Fforwm Llywodraethu Clinigol a hefyd yn ystod cyfarfodydd gweithredol canolog. Mae rhai comisiynwyr wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd adolygu digwyddiadau a gynhelir bob bore, er mwyn cefnogi'r gwasanaeth ymhellach.</p> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                                                                                                     | Amserlen                                                                 |
|----------------------------|--------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|
|                            |                    | <p>Caiff yr holl gynlluniau gofal a risg eu hadolygu o hyd drwy broses y tîm amlddisgyblaethol. Yn y dyfodol, gofynnwyd i dîm Ansawdd MHC archwilio ffeiliau cleifion yn ddirybudd bob chwarter er mwyn cefnogi Ysbyty St David. Caiff y canlyniadau eu hystyried yng nghyfarfod y Fforwm Llywodraethu Clinigol Lleol.</p> <p>Mae NHS England, drwy gyfarfod Ansawdd a Thrawsnewid Gofal, wedi awgrymu y dylid llunio cynlluniau gofal 24 awr a 72 awr ac mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.</p> <p>Cyn i unrhyw glaf gael ei dderbyn i'r gwasanaeth, bydd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Annibynnol St David yn sicrhau bod yr holl wybodaeth cyn derbyn (cynllun Cyflenwi Gwasanaethau) ar gael i'r staff ei</p> | <p>Tîm<br/>Amlddisgyblaethol<br/>St David / Tîm<br/>Ansawdd MHC</p> <p>Dr A. Dean,<br/>Cyfarwyddwr<br/>Meddygol<br/>Gweithredol.</p> <p>Dr J. Nash,<br/>Seiciatrydd<br/>Ymgynghorol</p> | <p>Ar unwaith</p> <p>28 Chwefror<br/>2020</p> <p>Yn ôl yr<br/>angen.</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                              | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Swyddog<br>cyfrifol                                       | Amserlen            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------|
| <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod unrhyw gleifion heb asesiadau risg na chynlluniau gofal priodol yn cael eu nodi ar unwaith.</p> |                    | <p>darllen. Cynhelir cyfarfod cyn derbyn er mwyn cytuno ar gynlluniau gofal ac asesiadau risg a'u darparu i'r staff cyn i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                           |                     |
|                                                                                                                                                                                         |                    | <p>Mae pob cynllun gofal ac asesiad risg ar gael. Fel rhan o'r prosesau a ddisgrifir uchod, mae rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn edrych yn fanwl ar y cynlluniau hyn. Mae'r archwiliad o ffeiliau cleifion yn nodi nifer o feysydd i'w gwella. Caiff y gwelliannau hyn eu hystyried fel rhan o adolygiad wythnosol y tîm amlddisgyblaethol a chaiff diweddariadau priodol eu gwneud. Fel y disgrifir uchod, caiff yr archwiliad o ffeiliau ei gwblhau erbyn 14 Chwefror 2020, a chaiff yr holl welliannau eu gwneud i'r cynlluniau gofal a'r asesiadau risg erbyn 20 Mawrth 2020.</p> | Dr J. Nash,<br>Seiciatrydd<br>Ymgynghorol.                | 20 Mawrth<br>2020   |
| <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu priodoldeb cynnwys cymaint o wybodaeth yn ffeiliau gofal y cleifion a sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i'r dogfennau allweddol.</p>          |                    | <p>Fel rhan o'r archwiliad o ffeiliau a ddisgrifir uchod, cymerir camau i sicrhau</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Tîm Ansawdd<br>MHC / Tîm<br>Amlddisgyblaethol<br>St David | 28 Chwefror<br>2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                    | Rheoliad/<br>Safon     | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                                                                                                | Amserlen                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------|
|                                                                                                                               |                        | mai dim ond gwybodaeth gyfredol a pherthnasol a gaiff ei chadw yn Ffeil y Claf a bod y ffeil yn cynnwys mynegai priodol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                    |                                                           |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion arsylwi yn cael eu cadw ar gyfer pob claf a'u bod yn gyflawn bob amser. | Rheoliad 15<br>(1) (b) | <p>Mae'r ffurflenni Arsylwi a ddefnyddir yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae GIG Cymru wedi cynnig adolygu'r templedi ar ôl iddynt gael eu cwblhau a byddwn yn derbyn eu cynnig o gymorth. Caiff y ffurflenni eu hadolygu, eu diwygio a'u cyflwyno erbyn 01 Mawrth 2020.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae system ar waith i sicrhau bod Nyrs â Chyfrifoldeb yn monitro cofnodion arsylwi bob dydd ac yn eu llofnodi i gadarnhau eu bod yn gyflawn.</p> <p>Mae Tîm Ansawdd MHC yn cynnal archwiliadau ar hap o'r broses hon, ddydd a nos, er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Mae'r systemau hyn wedi cael eu gwirio sawl</p> | <p>Neil Wattret, Arbenigwr Nyrsio Clinigol / Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty.</p> <p>Nyrs Chyfrifoldeb â</p> <p>Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty.</p> | <p>01 Mawrth 2020</p> <p>Ar unwaith</p> <p>Ar unwaith</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>gwaith hyd yma a nodwyd anghysondebau o hyd ar 24/01/2020. Tynnwyd sylw Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty at hyn yn syth. Mae Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty wedi darparu rhagor o arweiniad a chymorth lleol i'r staff mewn perthynas â sut i lenwi cofnodion arsylwi.</p> <p>Ers arolygiad AGIC, mae nifer o randdeiliaid allanol wedi archwilio cofnodion arsylwi hefyd, gan gynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• GIG Cymru</li> <li>• NHS England</li> <li>• Cydlynwyr Gofal o Fyrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol</li> <li>• Grwpiau Comisiynu Clinigol</li> </ul> <p>Trafodwyd yr holl adborth o'r ymweliadau hyn yn lleol drwy'r Fforwm Llywodraethu Clinigol.</p> <p>Mae Uwch-nyrsys, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty a'r Tîm Ansawdd yn parhau i</p> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                       | Amserlen                                             |
|----------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|
|                            |                    | <p>gynnal gwiriadau rheolaidd bob dydd er mwyn sicrhau bod y staff yn effro ac yn ymwybodol o'r disgwyliadau mewn perthynas â chofnodion Arsylwi. Diben y gwiriadau hyn yw sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau yn Ysbyty Annibynnol St David. Caiff unrhyw adborth o'r gwiriadau/arsylwadau hyn ei hadolygu a'i drafod yn ystod sesiynau goruchwyllo unigolion er mwyn cefnogi eu datblygiad personol.</p> <p>Mae adnodd archwilio trefniadau arsylwi ac ymgysylltu drafft wedi cael ei roi ar waith yn y gwasanaeth er mwyn profi dealltwriaeth aelodau o'r staff o hanfodion gwaith arsylwi ac ymgysylltu effeithiol ar y lefelau arsylwi gwahanol. Defnyddir yr adnodd hwn yn ad-hoc ar hyn o bryd, ond y nod yw y caiff yr adnodd ei ddefnyddio gyda'r holl staff sy'n gweithio yn Ysbyty Annibynnol St David erbyn 31 Mawrth 2020.</p> | <p>Jill Broom a Heroldine Davids, Uwch-nyrsys.</p> <p>Christian Bradford, Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty.</p> | <p>Ar unwaith / Yn barhaus</p> <p>31 Mawrth 2020</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Swyddog<br>cyfrifol                     | Amserlen       |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|----------------|
|                            |                    | <p>Caiff Polisi Arsylwi MHC ei adolygu hefyd a bydd hyfforddiant lleol ar y polisi diwygiedig ar gael i staff ar bob gradd, gan gynnwys staff nad ydynt yn gweithio ar y wardiau. Bydd holl dîm yr ysbyty yn ymwybodol o ddiben cynnal gwiriadau arsylwi'n gywir er mwyn cyfrannu at ddiogelwch a lles y cleifion. Bydd y staff i gyd yn cael hyfforddiant i ddwyn unrhyw anghysondebau o ran arsylwadau i sylw'r Nyrs â Chyfrifoldeb a'r Rheolwr Cofrestredig.</p> <p>Mae proses archwilio a gynhelir bob pythefnos ar waith i olrhain cynnydd a chaiff unrhyw faterion a nodir eu trin yn unigol drwy sesiynau goruchwyllo'r staff.</p> <p>Yn ogystal â goruchwyliaeth a chymorth, mae hyfforddiant mewn meysydd allweddol wedi cael ei nodi;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr</li> </ul> | Tîm Ansawdd MHC / Tîm Dysgu a Datblygu. | 30 Ebrill 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                            | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Swyddog<br>cyfrifol                                            | Amserlen        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|-----------------|
|                                                                                                                                                                                                                                       |                    | unigolyn <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth ymddygiad cadarnhaol</li> <li>• Cymorth gweithredol</li> </ul> Fel y cytunwyd ag AGIC, bydd yr Unigolyn Cyfrifol, Dr Anthony Dean, yn rhoi gwybod am bawb a gaiff eu rhyddhau o'r gwasanaeth ar ôl pob achos unigol.                                                                                                                                                                             | Dr A. Dean, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Unigolyn Cyfrifol | Yn ôl yr angen. |
| <b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>                                                                                                                                                                                            |                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                |                 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu trefniadau llywodraethu'r ysbyty er mwyn sicrhau bod materion sy'n peri pryder yn cael eu nodi'n effeithiol a bod camau unioni yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau. | Rheoliad 19 (1)    | Mae tîm Ansawdd MHC wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i wella'r Fforwm Llywodraethu Clinigol lleol a gynhelir yn Ysbyty St David bob mis.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn awyddus i atgyfnerthu perchenogaeth leol dros y Fforwm Llywodraethu Clinigol o ganlyniad i bryderon a nodwyd hyd yma a gorddibyniaeth ar systemau cymorth allanol. Mae'r Rheolwr Cofrestredig Dros Dro yn adolygu pob maes o gyfrifoldeb yn yr Ysbyty er mwyn sicrhau bod data'r | Christian Bradford, Rheolwr Cofrestredig Dros Dro.             | 31 Mawrth 2020  |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>holl fforymau perthnasol yn cael eu hadolygu drwy'r Fforwm Llywodraethu Clinigol lleol. Mae'r cyfarfod hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi, eu hadolygu'n rheolaidd, eu monitro'n barhaus a bod camau unioni'n cael eu cwblhau mewn modd amserol.</p> <p>Caiff y data i'w hadolygu yn y Fforwm Llywodraethu Clinigol eu casglu o'r ffynonellau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Data RIVO - System adrodd a hysbysu, cofnod llywodraethu electronig byw Mae hyn yn casglu data mewn perthynas â Digwyddiadau, Damweiniau, Meddyginiaeth AAWN, Ymyriadau Corfforol, Defnyddio'r Gwasanaethau Brys, Camgymeriadau o ran Meddyginiaeth, Cwynion, Canmoliaeth, Pryderon, Chwythu'r Chwiban, Achosion o Glefydau</li> </ul> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>Heintus a sgoriau archwilio.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfodydd Adolygu Digwyddiadau a Dadansoddiadau o Wraidd y Broblem (bob dydd)</li> <li>• Cofnodion y tîm amlddisgyblaethol (bob wythnos).</li> <li>• Sgoriau archwilio (bob mis).</li> <li>• Cyfarfodydd staff (bob mis)</li> <li>• Cyfarfodydd cleifion (bob mis)</li> <li>• Cofrestr Risg (bob chwarter)</li> <li>• Arolygiad Rheoleiddio a Chydymffurfiaeth Mewnol (bob blwyddyn)</li> <li>• Adborth o Arolygiad AGIC</li> <li>• Holiaduron Adborth Rhanddeiliaid (yn ôl yr angen) <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ffrindiau a Theulu</li> <li>○ Gweithwyr proffesiynol</li> <li>○ Staff</li> <li>○ Cleifion</li> </ul> </li> <li>• Setiau Data Dysgu a Datblygu</li> <li>• Cynllun Gwella Parhaus</li> </ul> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Swyddog<br>cyfrifol                                        | Amserlen         |
|----------------------------|--------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|------------------|
|                            |                    | <p>Caiff themâu a thueddiadau o'r cyfarfodydd llywodraethu lleol yn Ysbyty St David eu rhannu a'u dadansoddi wedyn drwy Fframwaith Llywodraethu Ansawdd MHC yn un o'r pwyllgorau canlynol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwyllgor Diogelwch a Risg</li> <li>• Pwyllgor Rheoli Meddyginiaethau</li> <li>• Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Pwyllgor Lles y Gweithlu</li> <li>• Pwyllgor Lles Pobl</li> <li>• Pwyllgor Diogelu</li> <li>• Pwyllgor Cyllid</li> <li>• Pwyllgor Safonau Proffesiynol</li> </ul> <p>Bob dau fis, mae'r gwasanaeth yn mynychu fforwm Adolygu Gwasanaethau Mewnol lle mae'r Rheolwr Cofrestredig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys yr holl Ddangosyddion</p> | Andrew MacGlashan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol. | 17 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Swyddog<br>cyfrifol                            | Amserlen         |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|------------------|
|                            |                    | <p>Perfformiad allweddol, i'r Unigolyn Cyfrifol, y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Adrannau amrywiol. Diben y broses hon yw sicrhau bod y data a gesglir drwy'r sefydliad yn adlewyrchu'r wybodaeth a gyflwynir / a rennir gan y Rheolwr Cofrestredig a realiti profiad y cleifion / staff o ddydd i ddydd. Mae'r broses hon yn newydd iawn ond wrth iddi barhau i ymsefydlu ei hun, bydd yn gwneud mwy i gefnogi a gwella perfformiad yr Ysbyty. Cynhelir cyfarfod nesaf y fforwm Adolygu Gwasanaethau Mewnol ar 17 Chwefror 2020.</p> <p>Ers arolygiad AGIC, mae'r Tîm Gweithredol, gyda chyfraniad aelodau unigol o bob rhan o'r sefydliad, wedi dechrau cynnal adolygiad o'r fframwaith llywodraethu, y trefniadau llywodraethu a'r prosesau llywodraethu dilynol yn Ysbyty St David. Caiff y Fframwaith cyfan ei adolygu, ac nid yw wedi'i gyfyngu i Ysbyty St David yn unig, ond</p> | Ryan Sandick, Cyfarwyddwr Ansawdd Gweithredol. | 28 Chwefror 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                   | Rheoliad/<br>Safon     | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Swyddog<br>cyfrifol                                            | Amserlen           |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|--------------------|
|                                                                                                                                                              |                        | caiff y gwersi i'w dysgu eu rhannu â St David drwy gydol y broses er mwyn gwneud gwelliannau lleol a bydd yr adolygiad yn defnyddio'r enghreifftiau a nodwyd gan AGIC yn Ysbyty Annibynnol St David er mwyn profi effeithiolrwydd. Caiff hyn ei adolygu yng nghyfarfod Bwrdd MHC ym mis Mawrth 2020.                                                                                                                                                                                                                      |                                                                |                    |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu pob digwyddiad a sicrhau bod AGIC yn cael ei hysbysu'n briodol am bob digwyddiad sy'n peri anaf difrifol i gleifion. | Rheoliad 31<br>(1) (b) | <p>Mae pob digwyddiad ers mis Hydref 2018 wedi cael ei adolygu. Arweiniodd hyn at gyflwyno 52 o hysbysiadau i AGIC ar 03 Chwefror 2020. Mae'n bosibl bod hysbysiadau hanesyddol wedi cael eu dyblygu yn ystod y broses hon ond mae'n sicrhau tryloywder llwyr a chydymffurfiaeth reoliadol o hyn ymlaen. Roedd yr holl hysbysiadau rheoliadol ac atgyfeiriadau diogelu yn gyfredol ar 03 Chwefror 2020.</p> <p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes hwn yn y dyfodol, mae cyfrifoldebau unigolion allweddol wedi</p> | Christian<br>Bradford,<br>Rheolwr<br>Cofrestredig Dros<br>Dro. | 7 Chwefror<br>2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                          | Amserlen                                                            |
|----------------------------|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|
|                            |                    | <p>cael eu hadolygu ac mae dyletswyddau wedi cael eu dyrannu er mwyn sicrhau cysondeb a thrylwyrdd.</p> <p>Bydd yr Uwch-weithiwr Cymdeithasol yn cwblhau'r holl atgyfeiriadau diogelu lleol o hyn ymlaen. Os bydd yr Uwch-weithiwr Cymdeithasol yn absennol, tîm Rheoli'r Ysbyty (y Rheolwr Cofrestredig neu'r Dirprwy Reolwr) fydd yn gyfrifol.</p> <p>Bydd y Rheolwr Cofrestredig Dros Dro yn cymryd cyfrifoldeb am gyflwyno pob hysbysiad rheoliadol i AGIC o hyn ymlaen. Os bydd y Rheolwr Cofrestredig yn absennol, Dirprwy Reolwr yr Ysbyty fydd yn gyfrifol. Dim ond mewn achosion prin ac annisgwyl y bydd y ddau aelod o dîm rheoli'r Ysbyty yn absennol ar yr un pryd, ond os bydd hynny'n digwydd, bydd Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cyflwyno'r hysbysiadau rheoliadol gofynnol.</p> <p>Mae prosesau i fonitro a diogelu hyn wedi cael eu hadolygu a chaiff yr holl</p> | <p>Wendy Goulbourn, Uwch-Weithiwr Cymdeithasol</p> <p>Christian Bradford, Rheolwr Cofrestredig Dros Dro.</p> | <p>Ar unwaith/Yn ôl yr angen.</p> <p>Ar unwaith/Yn ôl yr angen.</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>rybuddion diogelu a hysbysiadau rheoliadol eu hadolygu yn ystod yr amser a neilltuir ar gyfer y cyfarfod adolygu digwyddiadau dyddiol, yn ôl yr angen. Mae'r Rheolwr Cofrestredig, yr Uwchweithiwr Cymdeithasol a'r Clinigydd Cyfrifol oll yn mynychu'r fforwm hwn.</p> <p>Yn ogystal, caiff themâu a thueddiadau yn y data eu hadolygu yn y Fforwm Llywodraethu Clinigol Lleol fel ffordd arall o ddiogelu cydymffurfiaeth, yn ogystal â fforwm ar gyfer dysgu gwersi a nodi gwelliannau o ran ansawdd. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod bob mis.</p> <p>Caiff unrhyw ddigwyddiadau anffodus difrifol yn Ysbyty Annibynnol St David eu hadolygu bob wythnos gan y Tîm Gweithredol (Dr Anthony Dean, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol; Andrew MacGlashan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol; Ryan Sandick, Cyfarwyddwr Ansawdd Gweithredol) yn ystod y Cyfarfod</p> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                          | Rheoliad/<br>Safon     | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Swyddog<br>cyfrifol     | Amserlen            |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|---------------------|
|                                                                                                     |                        | Gweithrediadau a gynhelir ar brynhawn dydd Llun am 1pm. Mae'r Arweinydd Ansawdd yn cyflwyno'r holl ddata am ddigwyddiadau anffodus difrifol yn holl wasanaethau MHC yn y fforwm hwn. Caiff unrhyw adborth penodol a chymau gweithredu ar gyfer Ysbyty Annibynnol St David eu trafod â Rheolwr Dros Dro presennol yr Ysbyty (CB) yn syth.                                                                                                                                                                                                                           |                         |                     |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r prinder staff. | Rheoliad 20<br>(1) (a) | <p>Mae'r gwasanaeth wedi cael cymorth ychwanegol yn syth i reoli'r rota a chaiff y cymorth hwn ei adolygu bob wythnos er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol. Darparwyd y cymorth hwn gan ddefnyddio adnoddau o'r tu allan i'r ysbyty a chaiff y rota ei monitro er mwyn sicrhau bod lefelau staffio gofynnol yn cael eu bodloni bob amser.</p> <p>Os nodir prinder staff, caiff ei lenwi gan ddefnyddio staff Banc a staff Asiantaeth. Cymerir camau rhagweithiol i lenwi'r sifftiau hyn lle bo hynny'n bosibl.</p> <p><b>Diweddariad 04 Chwefror 2020;</b> Mae</p> | Tîm<br>MHC      Ansawdd | 28 Chwefror<br>2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Swyddog<br>cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|--------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|----------|
|                            |                    | <p>lefelau staff yn amrywio o hyd o ganlyniad i salwch, gwyliau ac amrywiadau yn lefelau arsylwi'r cleifion.</p> <p>Fel rhan o'r broses hon, caiff polisi Salwch / Absenoldeb MHC ei adolygu. Bwriedir cynnal yr adolygiad hwn ar 06 Chwefror 2020 gyda chymorth Croner Professional Services. Caiff y polisi newydd ei lansio erbyn 28 Chwefror 2020.</p> <p>Mae ymgyrchoedd recriwtio yn parhau ar gyfer yr ysbyty ac ar 04 Chwefror 2020, mae 9.5 o staff cyfwerth ag amser llawn yn dilyn y broses recriwtio/sefydlu. Mae'r broses sefydlu yn dechrau ar 10 Chwefror 2020 ac mae'n broses a ddiogelir sy'n para pythefnos.</p> <p>O ystyried pob ffactor cyfrannol, rhagwelir y bydd gennym dîm llawn o staff erbyn 01 Mai 2020.</p> <p>Caiff holl anghenion recriwtio'r gwasanaeth eu hadolygu bob wythnos</p> |                     |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Swyddog<br>cyfrifol                                                                                                              | Amserlen                            |
|----------------------------|--------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
|                            |                    | <p>gan y Tîm Gweithredol (Dr Anthony Dean, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol; Andrew MacGlashan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol; Ryan Sandick, Cyfarwyddwr Ansawdd Gweithredol) yn ystod y Cyfarfod Gweithrediadau a gynhelir ar brynhawn dydd Llun am 1pm. Caiff yr holl adborth a chamau gweithredu eu trafod â Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty.</p> <p>Bydd Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty yn rhoi diweddariad i AGIC am swyddi gwag yn y gwasanaeth ar ddiwedd pob mis.</p> <p>Fel y cytunwyd eisoes ag AGIC, bydd yr Unigolyn Cyfrifol, Dr Anthony Dean, yn hysbysu AGIC am bawb a gaiff eu rhyddhau o'r gwasanaeth ar ôl pob achos unigol gan fod hyn yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y staff sydd eu hangen yn y gwasanaeth ar unrhyw adeg.</p> | <p>Christian Bradford, Rheolwr Cofrestredig Dros Dro.</p> <p>Dr A. Dean, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol/Unig olyn Cyfrifol</p> | <p>Misol</p> <p>Yn ôl yr angen.</p> |

